# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Mehefin 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15144

# 283

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.06

Gofynnwyd cwestiwn 3. Tynnwyd cwestiynau 1-2 yn ôl.

## 4 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 5 Datganiadau 90 eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.10

Gwnaeth **Jenny Rathbone** ddatganiad ar 43 mlynedd ers trychineb y Syr Galahad (8 Mehefin).

Gwnaeth **Julie Morgan** ddatganiad ar Wythnos Gwirfoddolwyr (2 tan 8 Mehefin) a marwolaeth Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Graham Benfield

Gwnaeth **Delyth Jewell** ddatganiad ar Diwrnod Cefnforoedd y Byd (8 Mehefin 2025).

## 6 Dadl ar ddeiseb P-06-1476: Clustogfa orfodol 1000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a phresennol

Dechreuodd yr eitem am 15.16

**NDM8910** Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1476 Clustogfa orfodol 1000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a phresennol.' a gasglodd 11,473 o lofnodion.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dechreuodd yr eitem am 16.05

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8911** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 8 Mehefin 2025 yn nodi deng mlynedd ers i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei roi dan fesurau arbennig.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddechrau ymchwiliad cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 33 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud hyd yma o dan y gyfundrefn mesurau arbennig a'r gwaith sydd ar ôl o hyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei wneud, fel y nodwyd yn yr adroddiad cynnydd dwy flynedd a gyhoeddwyd fis Mawrth.

Mesurau arbennig (lefel 5) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: adroddiad cynnydd blwyddyn 2

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 23 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi ei dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 8 Mehefin 2025 yn nodi deng mlynedd ers i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei roi dan fesurau arbennig.

2. Yn nodi'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud hyd yma o dan y gyfundrefn mesurau arbennig a'r gwaith sydd ar ôl o hyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei wneud, fel y nodwyd yn yr adroddiad cynnydd dwy flynedd a gyhoeddwyd fis Mawrth.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 23 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 16.58

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.01

**NDM8912** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Casnewydd – dinas ar i fyny yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.29

**NDM8909** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cymru – ynni batri i bawb?

Daeth y cyfarfod i ben am 17.50

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Mehefin 2025**